

David Sissling
Prif Weithredwr
Pencadlys Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM
1 Talbot Gateway
Parc Ynni Baglan
Baglan
Port Talbot
SA12 7BR

Llinell Uniongyrchol: 02920 928852
Ffacs: 02920928878
E-bost: peter.higson@wales.gsi.gov.uk

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref

5 Gorffennaf 2010

Annwyl David

YMWELIAD URDDAS A PHARCH DIRYBUDD: YSBYTY CEFN COED

Ysgrifennaf i roi gwybod i chi am y canlyniadau a'r camau gweithredu a ddeilliodd o'r ymweliad 'Urddas a Pharch' dirybudd ag Ysbyty Cefn Coed ar 12 a 13 Ionawr 2010, ac i ddiolch i'ch staff am eu cyfraniadau cadarnhaol a'u cymorth parod.

Yn syth ar ôl yr ymweliad, cyfarfu ein hadolygwyr ag aelodau o staff eich Bwrdd Iechyd i roi ychydig o sylwadau cychwynnol.

Cefndir yr Ymweliad

Mae'n debyg eich bod yn ymwybodol i ni gyhoeddi ein bwriad i gynnal ymweliadau dirybudd o'r fath pan gyhoeddwyd ein Rhaglen Tair Blynedd ar gyfer 2009-2012 ym mis Gorffennaf y llynedd. Mae'r adolygiadau hyn yn canolbwyntio ar y pedwar maes canlynol:

- A yw hi'n amlwg bod urddas a pharch yn cael eu hystyried wrth roi gofal a thriniaeth?
- Pa brosesau sydd ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael dewis o fwydydd o ansawdd cyson sy'n diwallu eu hanghenion dietegol?
- Pa mor addas yw'r amgylchedd gofal?

- A yw'r holl wasanaethau a'r unigolion priodol (gan gynnwys cleifion a gofalwyr) yn cyfrannu at y gofal a thriniaeth?

Fel rhan o'r broses adolygu rydym yn cyfweid aelodau staff, cleifion a gofalwyr; yn archwilio cofnodion cleifion ac yn arsylwi'r amgylchedd, y gofal a'r driniaeth a ddarperir ar adeg ein hymweliad.

Rydym hefyd yn ystyried meysydd polisi a meysydd gweithredol eraill a allai effeithio ar ddiogelwch, preifatrwydd ac urddas, gan gynnwys:

- Systemau, prosesau ac ymwybyddiaeth o Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (POVA)
- Systemau, prosesau ac ymwybyddiaeth o Amddiffyn Plant (POCA).
- Lefelau staffio a chymysgedd sgiliau.

Defnyddir canlyniadau'r ymweliad hwn hefyd i gyfrannu at:

- Ein hadolygiad o weithrediad y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru.
- Dilysu hunanasesiadau'r Safonau Gofal Iechyd.

Yn bwysicaf oll, bydd yr ymweliadau'n werthfawr er mwyn cynnig sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd y gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir, a bydd yr holl lythyrau rheoli a baratoir o ganlyniad i'r ymweliadau yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Cynhaliwyd yr ymweliad ag Ysbyty Cefn Coed dros gyfnod o 24 awr ar ddydd Mawrth 12 a dydd Mercher 13 Ionawr 2010. Rhoddodd hyn gyfle i'n hadolygwyr ystyried effaith trefn arferol y ward a newidiadau sifft ar urddas cleifion ac i ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliant y wardiau yr ymwelwyd â hwy. Canolbwyntiodd ein hymweliad ar ward Dyffryn, sef ward asesu rhyw cymysg ar gyfer cleifion hŷn â dementia, a Ward Un, sef ward gofal parhaus, arhosiad hir i gleifion gwrywaidd â dementia sydd â phroblemau ymddygiad heriol.

A yw hi'n amlwg bod urddas a pharch yn cael eu hystyried wrth roi gofal a thriniaeth?

Roedd gan bob aelod o staff a gyfwelwyd ddealltwriaeth sylfaenol o anghenion y grŵp cleifion o ran urddas a pharch.

Gwelwyd bod y staff nyrsio yn ymadweithio'n ofalgar ac yn barchus wrth ddarparu gofal i'r cleifion.

Gwelwyd y cyfeirir at y cleifion gan ddefnyddio'r enw o'u dewis ac y siaredir â hwy mewn ffordd barchus. Gwelwyd bod yr holl gleifion yn lân, yn daclus ac wedi'u gwisgo'n briodol yn eu dillad eu hunain, sy'n helpu i leihau awyrgylch 'sefydliadol' posibl.

Roedd sawl claf yn cael ei nyrsio mewn gwelyau ar Ward Un mewn cilfachau amrywiol. Gwelwyd bod y rhain yn cael eu harchwilio a'u harsylwi yn rheolaidd a bod y drysau i'r cilfachau hyn yn cael eu cadw ar agor fel nad oedd y cleifion yn teimlo eu bod ar wahân.

Roedd y llenni o amgylch yr holl welyau cleifion yn lân, yn briodol o ran hyd ac yn symud yn rhwydd ar hyd y rheiliau, gan sicrhau bod urddas y claf yn cael ei barchu pan ddarperir triniaeth neu ymyrraeth wrth y gwely.

Ceir gwasanaeth Caplaniaeth yn yr ysbyty sy'n darparu ar gyfer enwadau'r Eglwys yn Lloegr a'r Eglwys Gatholig. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael yn rhwydd ac ymwelir â'r wardiau ddwywaith yr wythnos. Mae gweinidogion crefyddau eraill ar gael yn rhwydd ar gais.

Roedd tystiolaeth o gynlluniau gweithgareddau ar gyfer y cleifion ar y ddwy ward yn ogystal â mynediad at y Ganolfan Gweithgareddau i Gleifion.

Gwelwyd bod gan y staff ar y wardiau agwedd ragweithiol o ran gweithgareddau therapiwtig, e.e. chwarae dominos a sicrhau bod papurau newydd dyddiol ar gael. Gellid ategu hyn ymhellach trwy gael nyrs ail-ganolbwyntio/gweithgareddau ar y wardiau i gyfoethogi diwrnodau'r cleifion ymhellach.

Mae gwasanaeth Therapydd Galwedigaethol ar gael ar gyfer asesu cleifion ar ôl derbyn atgyfeiriad gan y staff nyrsio.

Meysydd i'w gwella

Gwelsom nad oedd crefydd wedi'i nodi bob amser ar gofnodion personol y cleifion. Gallai hyn olygu nad yw eu hanghenion ysbrydol yn cael eu diwallu'n llawn.

Roedd rheiliau llenni yn yr ystafelloedd ymolchi ond nid oedd llenni arnynt. Gallai hyn effeithio ar breifatrwydd cleifion pe byddai'r drws yn cael ei agor tra eu bod yn ymolchi.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod arwyddion yn cael eu defnyddio i ddangos bod gofal/triniaeth yn cael ei (d)darparu y tu ôl i lenni wedi'u cau.

Nid oedd gwydr anhryloyw yn y drws i'r ystafell un gwely ar Ward Un ac roedd hyn yn effeithio ar breifatrwydd y claf.

Pa brosesau sydd ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael dewis o fwydydd o ansawdd cyson sy'n diwallu eu hanghenion dietegol?

Mae'r cleifion yn bwyta gyda'i gilydd ar ward Dyffryn mewn ymdrech i hybu ymadweithio cymdeithasol.

Ar Ward Un, mae'r cleifion yn mynd i'r ystafell fwyta, yn eistedd yn eu cadeiriau arbenigol yn y coridor neu'n aros yn y lolfa. Defnyddir y man mwyaf priodol i ddiwallu anghenion y claf h.y. roedd hi'n anodd symud y cadeiriau arbenigol i'r ystafell fwyta.

Ceir dewis a rhywfaint o amrywiaeth o ran y fwydlen. Cynigir dewis o fwyd i'r cleifion o'r bwydleni amrywiol ac anfonir y bwyd i'r ward ar y droli fwyd.

Roedd y dull o asesu a monitro maeth yn gyson ar y ddwy ward. Caiff y cleifion eu pwysu yn rheolaidd a chofnodir eu pwysau ar siart pwysau.

Arsylwyd y cymorth a roddir i fwyta a gwelwyd ei fod yn briodol. Roedd y bwyd wedi'i gyflwyno'n dda a gwelwyd bod y staff nyrsio yn rhoi cymorth i'r cleifion hynny sydd ei angen.

Gwelwyd bod y dognau bwyd a gynigir i'r cleifion yn cyfateb i'w harchwaeth unigol. Dywedodd y cleifion a'r gofalwyr a gyfwelwyd bod ansawdd y bwyd a ddarperir yn rhesymol a bod rhai prydau yn fwy blasus ac yn cael eu mwynhau yn fwy nag eraill. Yn gyffredinol, y farn oedd bod anghenion dietegol y cleifion yn cael eu diwallu a bod ansawdd y bwyd yn dderbyniol.

Mae digon o fyrbrydau ar gael yn rhwydd y tu allan i oriau arferol ar y ddwy ward.

Mae cyllyll a ffyrdd priodol ar gael i'w defnyddio lle y bo'n briodol ac yn angenrheidiol.

Meysydd i'w gwella

Mae amseroedd prydau bwyd a ddiogelir yn drefniant ffurfiol ar ward Dyffryn ac anogir staff meddygol ac aelodau staff eraill yr ysbyty i beidio ag ymweld yn ystod amseroedd prydau bwyd. Rhoddwyd cynnig ar amseroedd prydau bwyd wedi'u diogelu ar Ward Un, ond nid oedd hyn yn hawdd oherwydd ymyriadau amrywiol gan staff meddygol a staff clinigol eraill wrth iddynt ymweld â'r cleifion yn ystod amser prydau bwyd.

Pa mor addas yw'r amgylchedd gofal?

Roedd y ddwy ward yn amlwg yn lân ac yn daclus.

Rydym yn cydnabod bod y Bwrdd wrthi'n adleoli gwasanaethau a ddarperir ar y wardiau hyn i unedau newydd a adeiladwyd i'r diben. Yn ystod cyfarfod adborth gydag aelodau'r Bwrdd ar ôl ymweliad AGIC, fe'n sicrhawyd y byddai rhai o'r pryderon a godir gennym yn yr adran ganlynol yn cael eu lleihau'n fawr fel rhan o'r datblygiad newydd.

Yr argraff gyntaf wrth gyrraedd y ddwy ward oedd eu bod yn amlwg yn lân ond bod angen eu hailaddurno. Fe'n hysbyswyd yn y cyfarfod adborth bod gwaith ailaddurno am gael ei wneud yn fuan.

Roedd ein hadolygwyr o'r farn bod cynllun Ward Un yn anaddas ar gyfer y grŵp hwn o gleientiaid, ond bod yr aelodau staff yn llwyddo i'w gwneud mor gyfforddus â phosibl. Roedd lle yn brin yn yr ystafell ddydd ac roedd pileri mawr yng nghanol yr ystafell. Oherwydd bod angen cadeiriau arbennig ar lawer o'r cleientiaid, roedd yr ystafell yn orlawn pan oedd yr holl gleifion yn bresennol. Mae'r awyru'n wael a phrin oedd yr olygfa o'r ystafell.

Dylid canmol y staff am y ffordd y maent yn parhau i lwyddo i wneud i'r amgylchedd hwn deimlo'n groesawgar ac yn gyfforddus i'r cleientiaid.

Roedd awyrgylch tawel a hamddenol ar ward Dyffryn ac roedd yr aelodau staff a'r cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r ward hon yn cynnwys cleifion gwrywaidd a benywaidd ac mae'r manau cysgu wedi'u diffinio'n eglur; ceir dwy uned 4 gwely ar wahân ac ystafell sengl i gynnig rhywfaint o hyblygrwydd.

Roedd tystiolaeth fod amrywiaeth eang o ddillad ysbyty ar gael yn ôl yr angen, a gwelwyd eu bod yn lân a heb staeniau arnynt. Mae rhai perthnasau yn mynd â dillad cleifion sydd wedi eu defnyddio/yn fudr adref i'w golchi ac mae gwasanaeth golchi dillad ar gael ar safle'r ysbyty ar gyfer y cleifion hynny nad oes ganddynt ymwelwyr rheolaidd.

Meysydd i'w gwella

Gan ein bod yn deall y bydd y ddwy ward yn cael eu hadleoli yn ystod yr 1-2 flynedd nesaf, mae'n amlwg na fyddai'n synhwyrol gwario arian ar waith adnewyddu mawr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn teimlo bod y materion canlynol yn achos pryder a bod angen gwneud gwelliannau.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd rheiliau llenni yn yr ystafelloedd ymolchi ond nid oedd unrhyw lenni arnynt. Gallai hyn effeithio ar breifatrwydd cleifion pe byddai'r drws yn cael ei agor.

Ar ward Dyffryn, gwelodd ein hadolygwyr fod un ystafell ymolchi ar y ward yn gwbl anaddas ar gyfer y grŵp hwn o gleientiaid gan fod baddon traddodiadol ynddi wedi'i osod yn erbyn wal, sy'n creu problemau difrifol o ran codi a chario. Fe'n hysbyswyd yn ystod ein hymweliad na ddefnyddir y baddon hwn ac felly awgrymwn tybed a fyddai'n fwy ymarferol troi'r man hwn yn ystafell wlyb.

Mae gan yr ail ystafell ymolchi ar ward Dyffryn faddon 'uchel/isel' hen iawn, sydd mewn cyflwr gwael iawn ac y mae angen ei drwsio.

Defnyddir un o'r ystafelloedd ymolchi ar ward Un fel storfa gan na ellir defnyddio'r baddon. Nid yw'n briodol defnyddio ystafelloedd ymolchi fel storfeydd. Os nad oes angen yr ystafell ymolchi mwyach, yna dylid cael gwared ar y baddon a'r toiled a nodi'r ystafell ar gyfer un diben yn unig.

Mae baddon uchel/isel yn yr ail ystafell ymolchi ar ward Un hefyd ac nid oes unrhyw enamel ar ôl mewn rhai manau oherwydd ei oed. Ceir cawod y gellir eistedd ynddi yn yr ystafell hon hefyd ac mae angen ei newid oherwydd bod holltau a manau sydd wedi eu torri ynddi a allai beri risg rheoli heintiau. Deallwyd bod y Bwrdd wedi ystyried prynu baddonau newydd y gellid eu trosglwyddo wedyn i'r uned newydd (o fewn y deunaw mis nesaf) pan fyddai'n agor; ond dywedwyd wrthym y byddai'r gost o'u trosglwyddo yn rhy uchel ac felly roedd y Bwrdd wedi gwrthod y cynnig hwn.

Mae diffyg eitemau personol yn y manau lle y mae'r gwelyau ar ward Dyffryn a Ward Un, er y nodwyd bod rhai eitemau personol ar Ward Un.

Mae'r cypyrddau dillad ar ward Dyffryn yn hen ac nid ydynt yn cynnig unrhyw fan y gellir ei gloi ar gyfer eitemau personol neu ddeunydd ymolchi'r cleifion. Mae gan y cypyrddau dillad ar Ward Un ran 'gudd' ar gyfer deunydd ymolchi sydd wedi'i chuddio gan ddrych. Dan Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002¹, mae'n rhaid cadw a thrin cemegau a sylweddau peryglus mewn ffordd sy'n lleihau cymaint â phosibl ar y risgiau a berir gan y sylweddau hynny ac sy'n cyfyngu ar gysylltiad pobl â hwy. Er ein bod yn cydnabod na fyddai eitemau megis siampŵ ac ati o reidrwydd yn cael eu hystyried yn gemegau neu sylweddau peryglus, rydym yn teimlo bod perygl y gallai pobl hŷn ddryslud lyncu sylweddau o'r fath, yn enwedig os oes arogl ffrwyth arnynt.

Hefyd, dylid adolygu materion sy'n peri risg i gleifion, gan ystyried yn benodol raseli a oedd yn cael eu cadw mewn cypyrddau heb eu cloi.

Mae'r gwelyau presennol yn hen, ac er y gellir cael gafael ar fatresi arbennig, byddai'r grŵp hwn o gleientiaid yn elwa o gael gwelyau 'proffilio' ag ochrau uchel cyfunol a matresi arbennig. Fe'n hysbyswyd y bwriedir cael y gwelyau hyn yn yr uned newydd.

Roedd y lolfa ar Ward Un yn ymddangos yn orlawn. Mae angen sawl cadair arbenigol ar y grŵp hwn o gleientiaid ac mae'r rhain yn fawr ac yn drwsgl. Derbyniwyd y gallai'r broblem hon fod yn anodd ei datrys ond gobeithir bod y gwaith cynllunio ar gyfer yr uned newydd wedi ystyried anghenion y grŵp hwn o gleientiaid a faint o le sydd ei angen ar gyfer seddi arbennig.

Mae'r teledu ar ward Dyffryn yn hen ac roedd wedi'i leoli ar ben pellaf y lolfa ac felly ni allai pob claf ei weld. Dylid gosod y teledu mewn man sy'n golygu bod yr holl gleifion yn gallu ei weld pe byddent yn dymuno.

Mae ward Dyffryn wedi bod heb beiriant golchi ers rhai misoedd. Dylid ystyried cael peiriant newydd. Fe'n hysbyswyd y byddai'r peiriant hwn yn cael ei ddefnyddio bob dydd ar gyfer golchi'r dillad isaf rhwylllog sy'n cadw padiau anymataliaeth yn eu lle. Deallwyd bod y dillad isaf hyn yn cael eu taflu ar hyn o bryd.

Mae angen adolygu'r arwyddion a dylent gynnwys diagramau a saethau i ddangos cyfeiriad. Byddai hyn yn cynorthwyo'r cleifion drwy hybu eu hannibyniaeth wrth wneud gweithgareddau byw pob dydd.

Dylid adolygu'r ddarpariaeth o gel dwylo a chymryd camau yn unol â chanllawiau'r NLPSA a gyhoeddwyd y llynedd yn cynghori y dylid lleoli didolwyr gel dwylo alcohol yn y manau lle y mae'r claf yn derbyn triniaeth e.e. wrth ochr gwelyau ac mewn manau clinigol. Mae angen cynnal asesiadau risg lleol er mwyn penderfynu ble y dylid gosod didolwyr gel dwylo gan roi ystyriaeth i'r risgiau sy'n gysylltiedig â chleifion unigol.

Nid oedd unrhyw eitemau amhriodol i'w gweld yn cael eu cadw ar ward Dyffryn ond roedd yn ymddangos bod llawer o eitemau o'r fath yng nghoridor Ward Un e.e. teclynnau codi. Roedd hyn oherwydd y diffyg manau storio priodol ar y ward.

¹ Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002.

A yw'r holl wasanaethau a'r unigolion priodol (gan gynnwys cleifion a gofalwyr) yn cyfrannu at y gofal a thriniaeth?

Roedd safon y nodiadau a gedwir yn uchel iawn ar y ddwy ward ac roedd gwybodaeth ar gael yn rhwydd o ffeiliau, a gedwir yn drefnus. Roedd ein hadolygwyr yn teimlo bod yr arferion yn y maes hwn yn werth eu rhannu.

Mae'r grŵp gwasanaeth iechyd meddwl hwn wedi llunio ei system cynllunio gofal cleifion ei hun ac er ei bod yn wahanol iawn i'r system a ddefnyddir mewn rhannau eraill o Gymru, mae'n diffinio cynlluniau gofal unigol eglur yn dda iawn ynghyd ag adolygiad systematig o anghenion cleifion. Roedd yr holl gofnodion a welwyd wedi'u diweddarau ac yn cynnwys cofnodion dilys h.y. manylion y ddarpariaeth o ofal i gleifion ac adolygiadau o anghenion gofal.

Roedd yn amlwg bod cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol rheolaidd yn cael eu cynnal. Er na nodwyd rhestr eglur o'r rhai a oedd yn bresennol, cofnodwyd cynnwys y cyfarfodydd hyn yng nghofnodion y cleifion. Roedd yn anodd nodi'n eglur o'r cofnodion hyn pa un a oedd gofalwyr wedi eu cynnwys. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'r cyfweiliadau gyda gofalwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn yng ngofal eu perthnasau a'r penderfyniadau a wneir amdanynt.

Nid yw'r gwasanaeth yn defnyddio dogfennau Asesu Unedig (UA) na'r Dull Rhaglen Ofal (CPA) ychwaith, sy'n groes i'r Polisi Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn effeithio ar ansawdd y gwaith cynllunio ac asesu gofal a oedd yn dda iawn. Nodwyd gennym hefyd y ffordd gadarnhaol y mae'r tîm yn defnyddio'r matrices o Asesiadau Gofal Parhaus mewn ffordd Amlddisgyblaethol.

Mae cyfathrebu effeithiol yn amlwg yn y ddwy ward ac mae pob aelod o staff yn ystyried ac yn parchu'r cleifion, eu cydweithwyr ac ymwelwyr.

Meysydd i'w gwella

Roedd y dull o gofnodi galluedd meddyliol cleifion yn anghyson yn y cofnodion a adolygwyd gennym. Fe'n hysbyswyd y rhoddir esboniadau i gleifion ac y ceisir eu caniatâd ar lafar heb unrhyw system ffurfiol ar gyfer asesu a chofnodi galluedd a chaniatâd. Dylai'r sefydliad ystyried llunio a defnyddio ei ffurflen ei hun fel bod dull cydnabyddedig a chyson ar gael i gofnodi caniatâd a galluedd iechyd meddwl cleifion. Dylid rhoi cyfle hefyd i'r staff ddilyn hyfforddiant priodol ar faterion yn ymwneud â chaniatâd a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Cynhelir archwiliadau Hanfodion Gofal, ond mae angen lledaenu canlyniadau'r rhain ymhlith y staff ar bob graddfa. Darperir adborth i arweinwyr clinigol, ond mae angen sefydlu system i roi gwybodaeth i bob aelod o staff.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod cleifion yn cael eu hasesu o ran ymataliaeth. Mae angen i'r gwasanaeth sefydlu dull o asesu ymataliaeth a darparu hyfforddiant priodol ar gyfer ei weithredu.

Pan fo gofalmwyr yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, dylid gwneud ymdrech i gael llofnod yn nodiadau'r claf i ddangos tystiolaeth o hyn.

Systemau, prosesau ac ymwybyddiaeth o Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (POVA)

Systemau, prosesau ac ymwybyddiaeth o Amddiffyn Plant (POCA). Lefelau staffio a chymysgedd sgiliau.

Roedd anghysondeb ar y ddwy ward o ran plant yn ymweld â chleifion. Ni chaniateir iddynt ddod i'r brif ward ond cânt ddefnyddio'r ystafell ymwelwyr neu'r ystafell fwyta cyn belled â'u bod yng nghwmni oedolyn bob amser.

Mae'r staff nyrso yn dilyn hyfforddiant gorfodol yn gyson.

Meysydd i'w gwella

Dywedodd rheolwr Ward Un fod lefelau staffio a chymysgedd sgiliau'r ward yn annigonol i ofalu am ugain o gleifion gofal parhaus, a rhai ohonynt wedi'u cyfyngu i'w gwelyau. Ar gyfartaledd, mae pedwar aelod o staff ar bob sifft ddydd. Mae hyn yn cymharu â phum aelod o staff ar sifft y bore a phedwar ar sifft y prynhawn ar ward asesu Dyffryn, sydd â naw o gleifion yn unig.

Mae angen adolygu'r cymysgedd sgiliau a'r lefelau staffio ar y ward hon er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer nifer y cleifion a'u hanghenion.

Roedd yn amlwg o gyfweld aelodau staff fod diffygion o ran gwybodaeth a hyfforddiant ynglŷn â Chaniatâd, Galluedd, POVA a POCA o Fand 6 i lawr. Mae'r gwahaniaeth rhwng lefel gwybodaeth a hyfforddiant y rheolwr a'r aelodau staff eraill yn amlwg. Dylid unioni hyn ac mae angen i'r sefydliad ddarparu llwybr eglur ar gyfer cwblhau gofynion hyfforddiant a lledaenu gwybodaeth i staff ar bob lefel.

Roedd yn amlwg nad ystyrir bod gofynion POCA yn berthnasol gan fod y wardiau yn darparu gofal i oedolion yn unig.

Nid oedd pob aelod o staff wedi cael archwiliadau diweddar gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol; mae'n ymddangos bod hyn wedi'i ganolbwyntio ar weithwyr newydd yn unig, neu pan fydd newid yn cael ei wneud i gontract. Rydym yn deall bod hon yn broblem i bob sefydliad ond mae angen mynd i'r afael â hi.

Mae angen mynd i'r afael â'r diffyg gwerthusiadau staff er mwyn hwyluso'r broses o weithredu'r Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gyflwyno cynllun gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a grybwyllwyd yn y llythyr hwn, erbyn dydd Mercher 21 Gorffennaf 2010.

Yn y cyfamser pe bai gennych unrhyw gwestiynau ynghylch cynnwys y llythyr hwn, mae croeso i chi fy ffonio fi neu Tracey Jenkins ar 02920 928913 neu anfon e-bost at: tracey.jenkins@wales.gsi.gov.uk.

Yr wyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Richard Bowen a Marion Andrews-Evans.

Yn gywir

PETER HIGSON
Prif Weithredwr